

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/10/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Iwan Hughes
Rhodri Ellis Owen
John Brinley Jones

William Penri Jones
Evan Glyn Thomas
Rhian Parry
Clerc

Thomas Victor Jones
D Andrew Parry

William Roger Jones
Greta Hughes

1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Clair Warren a Barbara Warren

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

3. Cofnodion 30/09/2019

Derbyn Cofnodion 30/09/2019 yn gywir ac wedi eu harwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

• **Archwiliad Mewnol**

Anfoneb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am £180.00 am waith archwilio mewnol. Mae'r aelodau yn gytûn yw talu.

• **Traethau**

Mae'r Cyngor Cymuned yn bryderus am gyfnod y mae'r bwiau allan yn y bae. Mae'r cyngor Cymuned yn derbyn ymateb Cyngor Gwynedd fod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r llanw a'r tywydd. Mae Roger Williams yn cynnig (eilydd: John Brinley Jones) gofyn i Gyngor Gwynedd os yw'n bosib ymestyn cyfnod y bwiau, mae'r cynnig yn llwyddiannus.

• **Cynllunio**

Pryderon yn codi am 7 Madryn Terrace, mae nifer o'r aelodau wedi gweld ceir yn parcio yno. Bydd y Clerc yn dilyn i fynnu hefo Cyngor Gwynedd.

5. Cae chwarae

Nid oes gyfarfod Pwyllgor Cae Chwarae wedi bod.

Mae Evan Glyn Thomas eisoes wedi bod ar y safle yn clirio.

6. Y Fynwent

Mae Rhodri Owen wedi derbyn copïau o'r dogfennau gwreiddiol; y gweithredoedd a'r rhybudd trosglwyddo. Nid yw dau o'r ymddiriedolwyr ar y Cyngor Cymuned bellach felly mae angen enwebu ymddiriedolwyr newydd. Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd: Victor Jones) Evan Glyn Thomas ac Andrew Parry, mae'r cynnig yn llwyddiannus. Mae Rhodri Owen yn amlygu cytundeb (20/03/2017) ar y tir sydd yn nodi y bydd taliad rent o £214.00 y flwyddyn am y 14 acer sydd berchen y Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn creu anfoneb i'r hyn.

Mae materion eraill yn ymwneud a'r fynwent yn parhau; trefnu cynllun busnes cynhwysfawr, costau tebygol, cynllunio, grantiau, parcio a materion cyfreithiol. Mae'r Clerc yn gwneud ymchwil ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

7. Awdit

Mae'r gwaith dal i fynd yn ei flaen. Bu'r Clerc yn gyrru dogfennaeth briodol ymlaen pan mae ar gael i wneud hynny.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/10/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

8. Rhestr Eiddo

Mae'r aelodau yn trafod nifer o wyriadau gellir eu gwneud i'r rhestr eiddo. Cytunwyd I'r Clerc ail yrru'r rhestr eto i'r aelodau wyro at bwyllgor mis Tachwedd. Bydd angen map i nodi lleoliad yr eitemau.

9. Taliadau Cynghorwyr

Mae'r Clerc yn nodi bod yn orfodol I aelodau llenwi ffurflen taliadau yn flynyddol I greu rhestr flynyddol o daliadau I aelodau. Mae'r aelodau yn cytuno nad ydynt am dderbyn taliad am eu ymroddiad I'r Cyngor Cymuned. Mae'r aelodau I gyd yn llenwi'r ffurflen.

10. Gorsaf Heddlu Abersoch

Mae pryderon yn codi am gau gorsaf heddlu Abersoch a bydd yn cael effaith andwyol ar Gymuned Llanbedrog. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Heddlu gogledd Cymru ac wedi derbyn yr ymateb isod (uniaith Saesneg):

"It seems that you and the community Council have been misinformed. The Police station in Abersoch has not been closed down. It is accurate to say that we have in recent weeks adopted a new working model in respect of our patrol function, and that Patrol officers covering Pen Llyn will start and finish their shifts in Pwllheli. The new working model has however increased the numbers of officers on each shift. This allows for officers to be deployed more readily to meet predictable demand and areas of specific risk. Which will include Llanbedrog, Abersoch and other areas of the Llyn as required.

Whilst 1 of the 5 shifts had 1 officer based in Abersoch prior to this change, such were the staffing pressures and demand elsewhere this officer was routinely deployed back towards Pwllheli. Whilst I understand there may be a perception of a withdrawal of resources from Abersoch and neighbouring villages, we are actually now better equipped to service these areas under the new operating model.

There have been no changes to the location of our Neighbourhood Policing Team.

In respect of the Abersoch Police Station building, our estate is constantly under review as there remains significant financial pressure on Policing nationally. Abersoch amongst other stations across the force has been subject of review. With better and more agile technology it maybe that there is financial benefit in sourcing an alternative solution. That to the best of my knowledge is not imminent, and the current station would not de-commissioned without first identifying and establishing a suitable alternative.

I hope this goes some way to alleviate your concerns."

Mae hyn yn ateb pryderon y Cyngor Cymuned. Diolch I Heddlu Gogledd Cymru am eu hymateb prydlon.

11. Nadolig

Mae Rhodri Owen wedi derbyn pris i wneud y gwaith trydan sef gosod socket allanol i'r goeden. Mae'r dyfynbris yn £155. Mae Victor Jones y cynnig (eilydd: Roger Williams) derbyn y dyfynbris a mynd ymlaen hefo'r gwaith. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

Mae'n amserol i archebu coeden, mae rhai aelodau yn cynnig cyfrannu at Gosta'r goeden. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo Glasfryn I wneud yn siŵr fod y goeden yn barod yw nol wythnos diwethaf mis Tachwedd er eu goleuo ar 30/11/2019. Mae Iwan Hughes yn nodi bod y goleuadau angen eu hadnewyddu, mae Penri Jones yn cynnig (eilydd: Rhodri Owen) gwario £200 tuag at y goeden a'r goleuadau newydd. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/10/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc - Rhian Hughes-Jones
Medi £333.33

£333.33

Taliadau wedi eu Gwneud

Dim

Taliadau wedi eu Derbyn

SP Manweb plc – Ad-daliad

£17.85

Ceisiadau Cynllunio

C19/0931/38/LL

Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy newydd ac ymestyn y prif edrychiad gyda estyniad unllawr Wollaston, Glynwedd Estate, Llanbedrog

Nodwyd bod y cynlluniau yn anodd iawn yw deallt gyda ddiffyg edrychiad o'r gwaith.

C19/0933/38/LL

Estyniad ac addasiadau
Bryn Aber, Llanbedrog

Dim Gwrthwynebiad.

C19/0937/38/LL

Dymchwel siale asbestos presennol ac adeiladu siale newydd ar yr un safle
Hafdy, Llanbedrog

Mae'r cynllun yn or ddatblygiad o'r safle ac yn gosod cynsail l'r dyfodol.

C19/0446/38/LL

Cais ol-weithredol i godi adeilad o fewn cwrtil ty ar gyfer defnydd anheddol dros dro
Glasgoed, Llanbedrog

Dim gwrthwynebiad os oes amod dros dro cadarn.

Ymgynghoriad BT

Ymgynghoriad i waredu blwch ffon BT

Cytunwyd i wneud ymholiadau i gostau cadw'r blwch ffon at ddefnydd diffibriliwr.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/10/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru** – Ymchwil ar Drosoglwyddo Asedau Cymunedol
2. **Un Llais Cymru** - Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – Medi 2019
3. **Un Llais Cymru** - Adroddiad Cyflwr y Genedl
4. **Un Llais Cymru** – Diwrnod VE 70 mlynedd
5. **Un Llais Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020
6. **Power for People** – Egni gwyrdd I’r cymuned
7. **Y Gyfarwyddiaeth Gymllunio** - Ymgynghoriadau Cynllunio
8. **Gresfordd** - hyfforddiant yn rhedeg - creu cynllun cymunedol - dydd mercher 30ain hydref - 6.30-9.00
9. **Mantell Gwynedd** - Cynhadledd ac AGM

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i’r feddygfa.
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru.
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie.**
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad